

Cylchlythyr

Seicoleg a Chwnsela

Mai 2022

Prosiectau Ymchwil Myfyrwyr Amrywiol

Mae staff Seicoleg a Chwnsela newydd orffen marcio prosiectau traethawd hir myfyrwyr y flwyddyn olaf. Am set o brosiectau diddorol gawsom ni eleni! Da iawn i'r holl fyfyrwyr am eu gwaith caled eleni. Roedd rhai o'r pynciau a archwiliwyd eleni'n cynnwys:

- Buddion darllen hamdden
- Genre gemau fideo a gwybyddiaeth
- Agweddau tuag at fenywod yn y lluoedd arfog
- Rhywioldeb a therapi trosi
- Ymwybyddiaeth ofalgar yn y lleoliad therapiwtig

Archwilio gorchuddion coesau prosthetig "cwl" gan LIMB-art



Mewn cydweithrediad â LIMB-art Ltd a Chanolfan Arloesi Technolegau Cynorthwyol (ATiC) yn y Drindod Dewi Sant, mae staff a myfyrwyr yn y Ganolfan Seicoleg a Chwnsela wedi bod yn ymwneud ag archwilio sut mae pobl sydd wedi colli aelod o'r corff, a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ymateb i orchuddion pwrrpasol ac artistig ar gyfer aelod prosthetig. Sefydlwyd LIMB-art gan y cyn nofiwr Paralympaidd Mark Williams sydd wedi colli'i goes, a'i wraig Rachel, a nod cyffredinol yr ymchwil hwn oedd archwilio'r effaith a welid wrth ddefnyddio gorchuddion prosthetig a luniwyd i dynnu sylw yn hytrach na lleihau sylw. Cliciwch y llun o'r gorchuddion LIMB-art cwl isod i ddarllen y Datganiad llawn i'r Wasg ar y stori hon.

Meddai Dr Ceri Phelps, Seicolegydd Iechyd a Chyfarwyddwr Academaidd Seicoleg a Chwnsela yn y Drindod Dewi Sant: "Bydd y prosiect yn ceisio archwilio agweddau'r sawl sydd wedi colli aelod o'i gorff, ac agweddau'r cyhoedd, at y defnyddio o orchudd coes brosthetig a ddyluniwyd yn bwrrpasol ac yn artistig, a'r manteision seicogymdeithasol a'r niweidiau posibl o wisgo'r cynnyrch."



Hwb Dementia

Mae Ruth Groff (darlithydd cwnsela) wedi bod yn ymwneud â gwirfoddoli yn yr Hwb Dementia ers iddo agor ym mis Ionawr. Mae nifer o'n myfyrwyr hefyd wedi treulio amser yn gwirfoddoli yma ac wedi bod yn ymwneud â chyfeirio teuluoedd ac unigolion sy'n cael eu heffeithio gan dementia at wybodaeth.

Bydd yr Hwb yn parhau i fod yn gyfle a argymhellir ar gyfer lleoliadau am y flwyddyn academiaidd sydd i ddod.



Diwrnodau Agored y Dyfodol

Diwrnod Agored Caerfyrddin: Dydd Sadwrn 18 Mehefin ar Gampws Caerfyrddin

Diwrnod Agored Abertawe: Dydd Sadwrn 25 Mehefin ar Gampws SA1




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cylchlythyr

Seicoleg a Chwnsela

Mai 2022



Lansio Llyfr: Penodau a gyd-ysgrifennwyd gan Dr Charlotte Greenway

Mae Dr Charlotte Greenway, Rheolwr Rhaglen ein cwrs Seicoleg Gymhwysol, wedi cyd-ysgrifennu penodau mewn llyfr ar Chwarae a Chynhwysiant, a Chwarae, Creadigrwydd a Llesiant a bydd yn rhan o gyflwyniad a sesiwn holi ac ateb yn y digwyddiad i lansio'r llyfr ddydd Mercher 18 Mai. Mae'r llyfr ei hun yn disgrifio pwysigrwydd chwarae o'r baban newydd-anedig i wyth oed ac mae'n ein hannog i feddwl yn feirniadol am chwarae a darpariaeth chwarae. Da iawn Charlotte, ac edrychwn ymlaen at y lansiad!

"Er bod hyn wedi bod yn heriol, gan mai hwn oedd y tro cyntaf i mi ysgrifennu penodau llyfr, roedd gweithio gyda fy nghyd-awduron Nanna Ryder a Laura Hutchings yn brofiad boddhaol dros ben. O'm rhan i, archwiliais sut mae therapi chwarae'n rhoi cyfle i blant fynd i'r afael â theimladau cymhleth a chyfathrebu ar eu cyflymder eu hun heb deimlo eu bod yn cael eu holi na theimlo dan fygythiad.

Ar gyfer yr ail bennod, trafodais bwysigrwydd creadigrwydd, a sut gall creadigrwydd a chwarae arwain at sgiliau ymdopi affeithiol a gwytnwch mewn plant."



Ymchwil Byd-eang ar Gydraddoldeb Rhywiol

Yn ddiweddar mae'r Athro Cysylltiol Seicoleg Gymdeithasol Paul Hutchings wedi cyflwyno darganfyddiadau a gafwyd o'r prosiect rhyngwladol 'Tuag at Gytgord rhwng y Rhywiau'. Roedd y prosiect hwn yn rhychwantu 42 gwlad gyda'r nod o archwilio cefnogaeth gan ddynion i gydraddoldeb rhywiol. Roedd y canlyniadau'n ddiddorol dros ben a bydd yr Athro Hutchings yn ysgrifennu darn i The Psychologist i ehangu ar y canfyddiadau. Yn y cyfamser, cliciwch isod am grynodedb o'i araith a roddwyd yn yr Wyl Seicoleg Ar-lein.

[The Psychologist: Crynodeb o'r Wyl Seicoleg Ar-lein](#)

Sgiliau Cwnsela a Sesiynau Bwt-camp Ymchwil!

Bydd ein sesiynau gwyh a phoblogaidd ar gyfer Sgiliau Cwnsela a Bwt-camp Ymchwil yn ôl eleni! Mae'r rhain ar gael i'n holl fyfyrwyr ar bob cwrs ar draws pob lefel.

Sgiliau Cwnsela: Dydd Mercher 22 Mehefin
Bwt-camp Ymchwil: Medi 2022 (i'w gadarnhau)



@UWTSDPsych



@teampsyco_uwtsd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



[Dolen gwefan y Brifysgol](#)